


CYNGOR TREF PORTHMADOG



COFNODION PWYLLGOR EIDDO A DATBLYGU 7 yh nos Fawrth Ebrill 26ain 2022

Presennol : Cyngorwyr : Selwyn Griffiths, Llywelyn Rhys (Cadeirydd), Gwilym Jones, Aled Griffith, Marian Roberts (Clerc)

Absennol : Cyng Jason Humphreys, Cyng Dr Melfyn Edwards

1. **Ymddiheuriadau** :- Cyng Nia Jeffreys, Cyng Ian Jones

2. **Llwybrau** :

- Wedi derbyn tendr torri gwair a llwybrau Cyngor Gwynedd ac wedi cadarnhau trwy lythyr at Geraint Hughes.
- Wedi hysbysu Gwalch a Garry Sheridan trwy ebost na fu eu dyfynbris yn llwyddiannus.
- Llwybr Penmount wedi cael ei uwchraddio gan Gyngor Gwynedd

3. **Cae Bodawen**

- Breese Gwyndaf wedi gorffen y broses hir o gofrestru'r tir efo'r Gofrestrfa Tir.
- Arwydd newydd yn ei le ers 13.4.22.
- Alan G Jones wedi atgyweirio'r meinciau a rhoi spring ac y giât
- Cwmni G.L.Jones wedi atgyweirio'r offer chwarae
- Trafodwyd lleoliad Seremoni Cyhoeddi Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd 2023 a **phenderfynwyd** rhoi'r mater ar raglen cyfarfod llawn mis Mai.

4. **Bryn Coffa**

Dim i'w adrodd – y Clerc yn gwirio'r lleoliad i gasglu sbwriel yn achlysurol

5. **Cae Pawb**

(a) Penderfynu ar rhent Cae Pawb 2023-2024

Nodwyd bod rhent blynyddol plot ar Gae Pawb £15.00 wedi aros yr un fath ers 2011.

Penderfynwyd :- codi'r rhent i £20 y flwyddyn o 2023 ymlaen yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Gwilym Jones yn eilio.

(b) Cais gan Bwyllgor Cae Pawb i ychwanegu rheol “ Dim yfed alcohol “ i reolau Cae Pawb

Mae'r Cyngor Tref yn gwerthfawrogi'r gwaith y mae'r Pwyllgor Rhandiroedd yn ei wneud i gynnal rhediad llyfn rhandiroedd Cae Pawb er budd trigolion Porthmadog sy'n eu defnyddio ac mae'r Cyngor yn barod i glywed cynrychiolaethau gan y Pwyllgor yn dilyn eu trafodaethau. Yn ddiweddar mae deiliaid lleiniau unigol wedi cysylltu gyda pryder am yfed alcohol ar y rhandiroedd. Mae hyn wastad wedi ei ganiatáu yn y gorffennol a thra bod modd gweld agweddau negyddol posib byddai'n amhosib i'r Cyngor fonitro a gorfodi

gwaharddiad ar yfed alcohol. Ni fyddai'r Cyngor Tref yn dymuno gwneud rheolau ar faterion na allwn eu rheoli. Fodd bynnag, os yw unrhyw ddeiliad llain yn ymddwyn mewn ffordd y gellir dangos ei bod yn peri tramgwydd i ddeiliaid lleiniau eraill, yna gellir terfynu eu cytundeb rhentu yn unol ag adran 14 o reolau'r Cyngor ynglŷn â'r rhandiroedd.

Penderfynwyd gwrthod y cais oherwydd y rhesymau canlynol :-

- Am na chafodd y cynnig ei drafod yn llawn gan Bwyllgor Cymdeithas Cae Pawb nac ychwaith gan y tenantiaid.
- Oherwydd y byddai'n amhosibl monitro a gweithredu ar y rheol.
- Oherwydd bod rheol 14. "**Ni chaniateir i chwi achosi trafferthion i unrhyw ddeilydd arall.**" o Reolau Cae Pawb yn bodoli yn barod ac yn cyfeirio at unrhyw ymddygiad gwrth-gymdeithasol.

Penderfynwyd hefyd fod rhaid i bob cais gan Bwyllgor Cae Pawb gael ei roi gerbron yn ysgrifenedig – ar ffurf ebost i'r Clerc – cyn y caiff ei drafod yn yr Is-Bwyllgor Eiddo.

(c) Penderfynu ar ddiddymu cytundebau

Trafodwyd achosion 2 denant – un oedd wedi arwyddo cytundeb ym mis Chwefror a heb ymddangos unwaith yng Nghae Pawb ers hynny, nac ychwaith wedi talu'r bil a'r llall sydd ddim wedi ymddangos yng Nghae Pawb ers cyn Nadolig 2021 a sydd ddim wedi talu'r bil. Cytunwyd y gallai bod ganddynt resymau dilys am beidio gofalu am eu rhandir am gyfnod mor hir a **phenderfynwyd** :-

bod y Clerc yn anfon atynt lythyr o rybudd o un wythnos i'w hysbysu y bydd eu cytundeb yn cael ei ddiddymu os na fyddant yn ymddangos ar Gae Pawb ac yn talu'r bil o fewn yr wythnos.

(ch) Hysbysu o'r angen i bob tenant gael Yswiriant Public Liability ar ei randir

Roedd y Clerc wedi darganfod – ac wedi cael cadarnhâd gan y cwmni yswiriant – fod yswiriant Cyngor Tref Porthmadog yn cynnwys "Public Liability Cover" am dir a llwybrau Cae Pawb **yn ei gyfansawdd** ond fod yn rhaid i bob deiliad rhandir sy'n talu rhent yng Nghae Pawb sicrhau fod ganddynt "Public Liability Cover" **eu hunain** ar gyfer eu rhandir.

Penderfynwyd :- byddai'r Clerc yn hysbysu'r tenantiaid o'u cyfrifoldeb i sicrhau yswiriant addas drwy osod gwybodaeth ar yr hysbysfwrdd yng Nghae Pawb; cyfeirio ato ymhob cytundeb a bil o 2023 ymlaen; hysbysu pob tenant drwy llythyr o'r angen i sicrhau yswiriant addas.

Penderfynwyd hefyd trefnu cyfarfod rhwng Bwyllgor Cyfeillion Cae Pawb a'r Is-Bwyllgor Eiddo yn y dyfodol agos yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Gwilym Jones yn eilio.

6. Llochesi Bws

Trafodwyd perchnogaeth llochesi bws Porthmadog a nodwyd mai'r Cyngor Tref sydd yn gyfrifol am y 2 loches ym Morfa Bychan a'r hen un wrth y Parc. Nodwyd fod rhai newydd T2 yn edrych yn drwsiadus iawn ac y dylid cadw llygad ar y llochesi i gyd i sicrhau eu bod yn parhau'n lân a thaclus.

7. Cerflun Mr. Maddocks

Nodwyd fod y cerflun yn parhau i fod mewn cyflwr da er gwaetha'r holl brysurdeb adeiladu ar safle'r Premier Inn newydd.

